


CAERDYDD
DIOGEL
AM BYTH



CAERDYDD DIOGEL AM BYTH

Ymunwch â chymuned busnesau Man Diogel

Y CYFAN SYDD ANGEN I CHI WYBOD AM Y CYNLLUN MANNAU DIOGEL

BETH YW MANNAU DIOGEL

Mae Mannau Diogel yn rhwydwaith hygyrch ledled y wlad, lle gall y rhai sy'n teimlo dan fygythiad, mewn perygl neu'n ofnus geisio cymorth a lloches gan fusnesau cofrestredig yn y brifddinas. O fariâu i fanciau, rydyn ni am i fusnesau yng Nghaerdydd gydweithio a chreu rhwydwaith o Fannau Diogel ledled y ddinas. P'un a yw rhywun yn gweld eich sticer ffenestr Mannau Diogel, gweld eich busnes wedi'i restru ar wefan [Caerdydd Diogel AM BYTH](#), neu maen nhw'n lawrlwytho'r ap rhad ac am ddim sy'n nodi holl Fannau Diogel Caerdydd, gall menywod sy'n teimlo'n anniogel ddod o hyd i Fan Diogel pan maen nhw ei angen.

Bydd staff yn cynnig cefnogaeth trwy drefnu galwad ffôn personol, cysylltu â'r gwasanaethau brys, ffonio am dacsî a chynnig sgwrs a chysur i'r rhai mewn angen.

YCHYDIG O GYD-DESTUN

Mae gan bob un ohonom yr hawl i deimlo'n ddiogel yn y cymunedau rydyn ni'n byw ynddynt. Gyda llofruddiaeth drasig Sarah Everard yn gynharach eleni ym mis Mawrth, fe wnaeth ailgynnau'r sgwrs ynghylch diogelwch menywod wrth gymudo a cherdded ar ein pennau ein hunain.

Canfu adroddiad gan y Guardian a ryddhawyd ar Fawrth 10 2021, fod 80% o fenywod o bob oed yn nodi eu bod wedi cael eu haflonyddu'n rhywiol mewn man cyhoeddus.

Yng ngoleuni hyn, credwn y dylai pob merch yng Nghaerdydd deimlo'n ddiogel pan fyddant yn cerdded ar eu pennau eu hunain.

CAERDYDD DIOGEL AM BYTH

Ein huchelgais yw gwneud Caerdydd yn ddinas lle mae pawb yn teimlo'n hyderus ac yn cael croeso wrth gerdded ar eu pennau eu hunain yn y brifddinas, ddydd neu nos.

Credwn fod gan Gymru a'i phrifddinas gyfrifoldeb i arwain y ffordd wrth feithrin dinasoedd mwy diogel i fenywod. Mae'n bryd gweithred am Caerdydd Diogel AM BYTH.

SUT I DDOD YN FAN DIOGEL

BETH MAE DOD YN FAN DIOGEL YN EI OLYGU

Pan fydd busnes yng Nghaerdydd yn cofrestru i fod yn Fan Diogel, maent yn darparu drws agored i unrhyw un, yn enwedig menywod, sy'n teimlo dan fygythiad, mewn perygl neu'n ofnus yn y brifddinas.

Os ydyn nhw'n teimlo'n anniogel, bydd pobl yn gallu dod o hyd i'ch busnes trwy'r ap Man Diogel (Safe Places) a fydd yn dangos y lleoliad diogel agosaf iddyn nhw.

Byddwch yn cynnig drws agored, wyneb cyfeillgar a chefnogaeth - p'un a yw'n cynnig galwad ffôn at ffrind neu dacsî, ffonio 999, neu eistedd i lawr gyda gwydraid o ddŵr wrth iddynt aros.

Bydd angen i'ch staff a'ch tîm ymgymryd â rhywfaint o hyfforddiant byr i ddeall sut i weithredu ac ymateb os yw rhywun yn cerdded i mewn angen cymorth.

Gofynnwn hefyd i fusnesau arddangos sticer ffenestri Mannau Diogel i'w gwneud hi'n gliriach fyth i bobl sy'n cerdded heibio.

**Oes gennych chi ddiddordeb mewn cofrestru fel Man Diogel?
Dyma'ch camau nesaf.**

RHESTR WIRIO

- ✓ E-bostio Caerdydd AM BYTH i gofrestru'ch diddordeb: info@forcardiff.com
- ✓ Sicrhewch fod y tîm sy'n cymryd rhan wedi gwyllo a deall y fideo hyfforddi 15 munud (ar y sleid nesaf).
- ✓ Dosbarthu'r **deunyddiau darllen hyn** gyda'r tîm a sicrhau eich bod yn eu deall.
- ✓ Unwaith y bydd eich tîm wedi'i frifio, bydd Caerdydd AM BYTH yn uwchlwytho'ch busnes i ymddangos ar yr app Mannau Diogel.
- ✓ Arddangos y sticer ffenestr Man Diogel ar eich busnes a lawrlwytho'r asedau ar y dudalen nesaf i hyrwyddo bod yn Fan Diogel

GWYLIWCH Y FIDEO HYFFORDDI

A training guide for businesses and their staff
registering as a **Safe Place**



EISOES YN FAN DIOGEL?

HELPWCH NI I HYRWYDDO EIN RHWYDWAITH O FANNAU DIOGEL LEDLED CAERDYDD TRWY ADAEL I BOBL WYBOD EICH BOD CHI’N FAN DIOGEL

- Lawrlwythwch yr asedau ‘Rydyn ni’n Fan Diogel’ i’w rhannu ar eich Cyfryngau cymdeithasol
- Sicrhewch fod eich sticer Mannau Diogel i’w weld yn glir yn eich ffenestr neu ar eich drws.
- Sicrhewch fod eich aelodau wedi eu diweddarau ac wedi’u hyfforddi’n llawn i allu delio gyda sefyllfaoedd posib.

LAWRLWYTHWCH YR ASEDAU

RYDYN NI’N FAN DIOGEL



CAERDYDD
DIOGEL
AM BYTH

Mae ein drysau ar agor i unrhyw un sy’n
teimlo’n fregus yng nghanol y ddinas

LAWRLWYTHYCH YR AP ‘MANNAU DIOGEL’ / ‘SAFE PLACE’
i wybod am eich manau diogel agosaf yn y brifddinas

CWESTIYNAU CYFFREDIN AM FANNAU DIOGEL

C. Beth yw a sut ydyn ni'n dod yn Fan Diogel?

Mae Caerdydd AM BYTH yn falch o hyrwyddo Mannau Diogel a byddwn yn cynnig cefnogaeth a hyfforddiant. Rydym yn gofyn am ymrwymiad i'r cynllun ac yn cydnabod bod eich cynnwys yn y cynllun yn arddangos ac yn meithrin mwy o gyfle cynnwys cymunedol i'ch busnes.

Mae'r syniad yn syml iawn: mae busnesau a sefydliadau yn cofrestru i fod yn Fan Diogel. Ar ôl hyfforddi staff allweddol, rhoddir sticer Mannau Diogel dewisol iddynt y gallant ei arddangos yn eu ffenestr a chofnodir eu cofrestriad ar wefan ein cynllun lleol a'n ap defnyddwyr.

C. A fydd yn rhaid i gwmnïau sy'n cofrestru ar gyfer Mannau Diogel ystyried atebolrwydd ac yswiriant pe bai rhywun yn ceisio lloches a digwyddiad posibl yn digwydd yn ein hadeilad?

Na, byddai eich yswiriant atebolrwydd cyhoeddus presennol yn talu am hyn fel y byddai i unrhyw ymwelydd â'ch adeilad.

C. A allwn ni bennu'r oriau gweithredu ar gyfer darparu cefnogaeth, h.y., pe byddem yn dweud y gellir defnyddio ein swyddfeydd fel Man Diogel rhwng 8am a 6pm, a fyddai hyn yn dderbyniol?

Gallwch, gallwch ddweud wrthym am eich oriau gweithredu wrth gofrestru a bydd y rhain yn cael eu rhestru ar eich cofnod Man Diogel.

C. Sut bydd pobl yn darganfod ein bod ni'n Fan Diogel?

Gallant ddod o hyd i'n holl aelodau Mannau Diogel trwy ddefnyddio ein apiau ffôn clyfar am ddim. Maent ar gael i'w lawrlwytho ar yr App Store ar gyfer IOS ac ar Google Play i Android. Os yw'n briodol i'ch busnes, gallwch arddangos y sticer Mannau Diogel dewisol.

CWESTIYNAU CYFFREDIN AM FANNAU DIOGEL

C. Sut fydd y prosiect yn cael ei gynnal?

Mae Caerdydd AM BYTH wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel a chroesawgar i bawb sy'n byw neu'n gweithio yng Nghanol Dinas Caerdydd. O ran y Mannau Diogel, rydym wedi penderfynu ymestyn y cynllun ledled Sir Caerdydd a bydd swyddogion Cyswllt Busnes Caerdydd a staff o'n cangen ddiogelwch, Partneriaeth Lleihau Trosedd Busnes Caerdydd yn erbyn Troseddau Busnes, yn monitro o ddydd i ddydd. Mae hwn yn brosiect allweddol i ni, a bydd yn parhau i gael ei adolygu'n gyson ac wedi'i gynnwys yn ein cynllun busnes 5 mlynedd.

C. Os ydym yn cofrestru ac yna'n penderfynu nad ydym am gymryd rhan mwyach beth ddylem ei wneud?

Cysylltwch â gweinyddwr y cynllun a fydd yn eich tynnu o'r cynllun.

C. Sut fydd y cynllun yn cael ei fonitro?

Mae staff Caerdydd AM BYTH ar gael yn ystod y swyddfa oriau o ddydd Llun i ddydd Gwener a byddwn yn ymrwymo i gwblhau adolygiad cynllun gyda phob busnes bob chwe mis. Byddem hefyd yn gofyn i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl i roi gwybod i ni a ydych wedi darparu Man Diogel i aelod o'r cyhoedd.

C. Sut olwg fydd ar lwyddiant?

Rydym yn bwriadu cofnodi'r nifer o weithiau y gelwir ar fusnesau cofrestredig fel Mannau Diogel ac os yw'n briodol a gyda chaniatâd, gallwn roi cyhoeddusrwydd i arferion a digwyddiadau effeithiol lle mae'r cynllun wedi cyfrannu at ddiogelwch y gymuned. Hefyd, bod canfyddiad a phrofiad pobl yng Nghaerdydd yn un mwy diogel.

C. Faint o fy staff sydd angen eu hyfforddi i gyfrif fel lleoliad Man Diogel?

Cyfrifoldeb y busnes neu'r lleoliad yw mesur faint o staff sy'n briodol i gael eu hyfforddi. Fodd bynnag, ar gyfer busnesau sydd â throsiant staff uchel neu batrymau shifft, rydym yn argymhell bod yr hyfforddiant Mannau Diogel yn dod yn rhan o'r cyfnod sefydlu ar gyfer staff sy'n delio gyda chwsmeriaid fel bod rhywun yn y busnes bob amser sy'n gwybod ac yn deall y cynllun.

DARGANFYDDWCH FWY

GWYBODAETH

Ewch i www.FORASaferCardiff.com i gael mwy o wybodaeth am y cynllun Mannau Diogel.

Lawrlwythwch yr app Mannau Diogel / Safe Places ar eich ffôn smart trwy'r Apple Store [yma](#) neu trwy Google Play [yma](#).

DILYNWCH NI AR GYFRYNGAU CYMDEITHASOL I GAEL DIWEDDARIADAU AMSER REAL:

 [@FOR_Cardiff](#)

 [@FORCardiff](#)

 [@forcardiff](#)

E-bostiwch info@forcardiff.com i siarad ag un o dîm Caerdydd AM BYTH yn uniongyrchol.

Cyflwynir i chi gan
CAERDYDD 
AM BYTH 